Student Academic Reps
Cynrychiolwyr Academaidd Myfyrwyr

# Esboniad o’r Nodau ar gyfer Cynrychiolwyr

Mae Undeb Myfyrwyr Caerdydd a Phrifysgol Caerdydd yn gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod llais y Myfyrwyr yn cael ei glywed a’i gymryd o ddifrif ar bob lefel.

Byddwch yn chwarae rhan hanfodol yn hyn drwy weithio gyda’r Brifysgol, drwy fynychu eich Paneli Staff Myfyrwyr a chyfathrebu ag Undeb y Myfyrwyr ynghylch materion academaidd.

Mae tîm Llais y Myfyrwyr wedi creu’r daflen Nodau Cynrychiolydd hon i sicrhau eich bod yn ymwybodol o’r cyfrifoldebau sydd gennych fel Cynrychiolydd Academaidd Myfyrwyr.

**Mae chwe chategori wedi’u cynnwys:**

- Paratoi ar gyfer y rôl
- Eich dyletswyddau allweddol
- Cyfathrebu â myfyrwyr
- Cyfathrebu â staff
- Ffyrdd o ymgysylltu
- Myfyrio & chydnabyddiaeth

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am eich rôl, anfonwch e-bost at StudentReps@cardiff.ac.uk

**Manylion cyswllt:**

CardiffStudentVoice

StudentReps@cardiff.ac.uk

cardiffstudents.com/studentvoice

| Paratoi ar gyfer y rôl | Eich dyletswyddau allweddol | Cyfathrebu â myfyrwyr | Cyfathrebu â staff | Ffyrdd o ymgysylltu | Myfyrio & chydnabyddiaeth |
|---|---|---|---|---|---|
| **Mynychu hyfforddiant**<br>Rydym yn cynnal hyfforddiant i bob Cynrychiolydd, boed yn newydd neu'n dychwelyd i'r rôl. Bydd yr hyfforddiant hwn yn egluro eich rôl, sut i gasglu adborth a rhannau allweddol o'ch rôl. Dyma'ch cyfle i ddysgu am eich rôl, cwrdd â Chynrychiolwyr o bob cwr o'r Brifysgol a gofyn cwestiynau. | **Mynychu Paneli Staff Myfyrwyr**<br>Mynychu 3 panel Staff Myfyrwyr (PSM) y flwyddyn. Un o rannau pwysicaf o'ch rôl yw mynychu PSMau. Dyma eich cyfle i roi adborth i uwch aelodau o staff yn eich ysgol ar faterion ac adborth sydd wedi'i gyflwyno i chi gan fyfyrwyr. | **Cyflwyno eich hun**<br>Rhan enfawr o'ch rôl yw cyfathrebu â'ch carfan! Gwnewch hi'n haws i chi'ch hun trwy gyflwyno eich hun iddyn nhw. Gofynnwch i'ch Cydlynydd Cynrychiolydd Myfyrwyr a allwch chi gyflwyno'ch hun mewn e-bost neu hyd yn oed gael gair bach ar ddechrau darlith. | **Tîm Llais y Myfyrwyr**<br>Fel tîm, rydym yn cwmpasu ystod eang o feysydd o gynrychiolaeth academaidd a pholisi i ddemocratiaeth ac ymgyrchoedd. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd i hyrwyddo llais y myfyrwyr ar bob lefel a rhoi cyfle i fyfyrwyr fod yn rhan o gyd-greu eu profiad prifysgol. Rydym wedi'n lleoli ar drydydd llawr Undeb y Myfyrwyr ym Mhlas y Parc, felly dewch i'n gweld unrhyw bryd! **StudentReps@cardiff.ac.uk** 02920 781 448. | **Mynychu'r CCB**<br>Mae'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn gyfle gwych i chi ddarganfod beth sy'n cael ei drafod gan fyfyrwyr ac i gymryd rhan yn y drafodaeth. Mae dros 900 o fyfyrwyr yn mynychu'r cyfarfod o gymdeithasau a thimau chwaraeon, i senedd y myfyrwyr a chynrychiolwyr academaidd myfyrwyr. Mae myfyrwyr yn pleidleisio ar bolisïau a fydd yn effeithio ar gorff ehangach y myfyrwyr. | **Cwblhau'r arolwg diwedd blwyddyn**<br>Ar ddiwedd y flwyddyn academaidd byddwch yn derbyn e-bost gan dîm Llais Myfyrwyr yn gofyn i chi lenwi arolwg diwedd blwyddyn Cynrychiolwyr Myfyrwyr. Mae hyn yn rhoi cyfle i chi ddweud wrthym sut mae eich blwyddyn wedi mynd a pha welliannau y gellir eu gwneud. |
| **Mynychu gweithdy ysgol**<br>Bydd pob ysgol yn cynnal gweithdy ysgol, bydd hyn yn rhoi cyfle i chi gwrdd â Chynrychiolwyr yn eich ysgol a dod i wybod am adborth a materion penodol i'r ysgol. Dyma hefyd lle byddwch chi'n cwrdd ag eich Cydlynydd Cynrychiolwyr Myfyrwyr (CCM). | **Cau'r ddolen adborth**<br>Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi gwybod i'ch cyd-fyfyrwyr beth sy'n digwydd yn y PSMau. Os yw pwynt rydych wedi'i godi yn eich PSM yn cael ei drafod a'i weithredu arno, dywedwch wrth eich carfan - gelwir hyn yn cau'r ddolen adborth. | **Sut ydych chi'n cyfathrebu orau?**<br>Mae casglu adborth gan fyfyrwyr yn rhan allweddol o rôl y Cynrychiolydd Academaidd Myfyrwyr. Mae'n bwysig cofio estyn allan at bob myfyriwr wrth gasglu adborth, ond gallwch wneud hyn yn y ffordd sydd fwyaf cyfforddus i chi. Byddwch yn ofalus o wneud eich cyfathrebu'n hygyrch i bob myfyriwr. | **Cydlynwyr Cynrychiolwyr Myfyrwyr**<br>Eich Cydlynydd Cynrychiolwyr Myfyrwyr (CCM) yw eich pwynt cyswllt o fewn eich ysgol. Bydd o gymorth mawr yn eich rôl os gallwch chi gwrdd â nhw i ddysgu mwy am yr ysgol a'r hyn sydd wedi cael ei gyflwyno i PSMau o'r blaen. Os ydych chi'n ansicr pwy yw eich CCM, anfonwch e-bost at**StudentReps@cardiff.ac.uk**. | **Gwirfoddoli ar gyfer Wythnos Siarad**<br>Mae Wythnos Siarad yn ymgyrch flynyddol a gynhelir gan Undeb y Myfyrwyr i gasglu adborth gan fyfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd. Gallwch gymryd rhan mewn rhedeg stondin ar gyfer eich ysgol. I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'ch Cydlynydd Cynrychiolwyr Myfyrwyr neu anfonwch e-bost at **StudentReps@Cardiff.ac.uk**. | **Rhannwch eich buddugoliaethau!**<br>Rydym ni eisiau canmol holl waith gwych ein Cynrychiolwyr Academaidd Myfyrwyr, os ydych chi wedi ennill, dywedwch wrthym ni amdano! Rydyn ni eisiau clywed amdanyn nhw, boed yn fuddugoliaethau bach neu fawr. Anfonwch eich buddugoliaethau **StudentReps@cardiff.ac.uk**. |
| **Darllenwch lawlyfr y Cynrychiolwyr**<br>Dyma'ch canllaw i bopeth sy'n gysylltiedig â Chynrychiolwyr! Mae'r llawlyfr yn cynnwys negeseuon croeso gan eich swyddogion, awgrymiadau gwych ar gyfer eich rôl a gwybodaeth am y gwobrau a'r gydnabyddiaeth sydd ar gael i Gynrychiolwyr! | **Mynychu Sesiynau Arweinwyr Myfyrwyr**<br>Ymunwch â'n sesiynau drwy gydol y flwyddyn i ddatblygu'ch sgiliau, adeiladu ar eich gwybodaeth, a rhwydweithio â chynrychiolwyr eraill. Bydd amrywiaeth eang o sesiynau drwy gydol y flwyddyn felly cadwch lygad am y cylchlythyr misol a fydd yn cynnwys mwy o fanylion. | **Casglu adborth ar gyfer PSMau**<br>Mae'n wirioneddol bwysig eich bod chi'n mynd allan i gyfarfod â'r myfyrwyr sy'n astudio ar eich cwrs. Mae hyn yn cynnwys siarad â myfyrwyr cyn darlithoedd a seminarau. Gallwch gasglu adborth gan fyfyrwyr yn y llyfrgelloedd ac ar draws y campws. Gallech hyd yn oed sefydlu sgyrsiau grŵp a siarad â myfyrwyr yn y ffordd honno. | **Dilynwch ni ar Instagram**<br>Rydym bob amser yn postio ffyrdd hwyl a chyfforddus i chi gymryd rhan a derbyn gwybodaeth ar ein Instagram, felly pam na wnewch chi ein dilyn ni a chael y wybodaeth ddiweddaraf am bopeth sy'n ymwneud â Llais Myfyrwyr! @ CardiffStudentVoice | **Cyflwyno syniad**<br>Eisiau gweld newid? Oes gennych chi syniad sy'n bwysig i chi? Yna, cyflwynwch ef ar ein platfform syniadau. Yna gall y syniadau hyn gael eu trafod a'u pleidleisio arnynt yn Senedd y Myfyrwyr. | **Enwebu eraill ar gyfer GCBM**<br>Mae Gwobrau Cyfoethogi Bywyd Myfyrwyr (GCBMs) yn ddigwyddiad blynyddol sy'n cydnabod gwaith caled myfyrwyr a staff i gyfoethogi eich profiad yng Nghaerdydd. Mae'r categoriau'n amrywio o Eiriolwr Llais y Myfyrwyr & Phartneriaeth i Gynrychiolydd Academaidd Myfyrwyr y Flwyddyn. Gwnewch yn siŵr eich bod yn enwebu person teilwng ar gyfer GCBM eleni! |
| **Ewch i'r ganolfan adnoddau**<br>Mae'r ganolfan adnoddau yn cynnwys yr holl gymorth, canllawiau a dogfennau y gallech fod eu hangen yn eich rôl - gellir dod o hyd i'r daflen hon a llawlyfr Cynrychiolwyr yno hefyd. Ewch yno i ddarganfod beth sydd ar gael. | **Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion**<br>Bydd pob PSM yn ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd. Maent yn helpu i hwyluso PSMau, yn arwain y cyfarfodydd, yn gosod agendâu, yn annog trafodaeth gan bob Cynrychiolydd ac yn penodi camau gweithredu. Os hoffech ddod yn Gadeirydd neu'n Is-gadeirydd, siaradwch â'ch CCM. | **Cysylltwch â'ch Cadeirydd**<br>Mae Cadeiryddion o bob coleg yn mynychu eu Fforymau Coleg priodol. Mae hwn yn gyfle iddyn nhw ddysgu am bryderon a materion ledled y Coleg. Pan fydd eich Cadeirydd yn cysylltu am adborth, gwnewch yn siŵr eich bod yn trosglwyddo unrhyw adborth iddyn nhw. | **Cadw fyny â'r wybodaeth ddiweddaraf!**<br>Bob mis byddwch yn derbyn Cylchlythyr Llais y Myfyrwyr yn amlinellu beth sydd ymlaen am y mis nesaf, gwybodaeth allweddol a ffyrdd eraill o gymryd rhan - cadwch lygad am hynny! Byddwch hefyd yn derbyn unrhyw wybodaeth allweddol am y Cynrychiolwyr drwy e-bost, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw llygad am yr e-byst hynny! | **Mynychu Senedd y Myfyrwyr**<br>Mae Senedd y Myfyrwyr yn cyfarfod pum gwaith y flwyddyn i basio polisi sy'n effeithio ar y gymuned fyfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae hyn yn gyfle gwych i basio polisi academaidd a helpu'r Undeb i wneud penderfyniadau. Efallai y cewch eich dewis fel un o'r seneddwyr Cynrychiolydd Academaidd Myfyrwyr a ddewisir ar hap! | **Cael eich enwebu ar gyfer GCBM**<br>Mae cael eich enwebu ar gyfer GCBM yn dangos eich bod wedi gweithio yn galed iawn yn eich rôl a bod myfyrwyr yn gwerthfawrogi eich gwaith. Gallech gael eich enwebu ar gyfer Cynrychiolydd Academaidd Myfyrwyr y flwyddyn. |
| | **Mynychu pwyllgor ychwanegol**<br>Oes gennych ddiddordeb mewn mynd â chynrychiolaeth i'r lefel nesaf? Eisiau gwybod mwy am y Brifysgol? Beth am eistedd ar bwyllgor ychwanegol? Mae llawer o bwyllgorau sydd â Chynrychiolwyr yn eu haelodaeth - sy'n cynnwys Bwrdd Astudiaethau a Phwyllgorau Addysg Ysgolion a Cholegau a Phrofiad Myfyrwyr. Os oes gennych ddiddordeb, anfonwch e-bost at **StudentReps@cardiff.ac.uk**. | **Anfon negeseuon e-bost**<br>Gallwch ofyn i'ch Cydlynydd Cynrychiolydd Myfyrwyr eich helpu i anfon e-bost torfol at y myfyrwyr yn eich ysgol. Yn y gorffennol mae Cynrychiolwyr wedi anfon arolygon, holiaduron a chylchlythyrau. | | **Rhedeg i fod yn Swyddog Sabothol**<br>Bob blwyddyn mae myfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd yn ethol saith swyddog etholedig llawn amser. Mae'r swyddogion hyn yn cael eu talu ac yn cychwyn eu swyddi ddiwedd mis Mehefin. Bydd y swyddogion yn cynrychioli barn myfyrwyr i Brifysgol Caerdydd ac Undeb y Myfyrwyr. Yn y gorffennol mae llawer o Gynrychiolwyr Academaidd Myfyrwyr wedi ymgeisio am lawer o'r swyddi hyn. | **Ysgrifennwch am eich profiad**<br>Dywedwch wrthym beth rydych chi wedi gweithio arno eleni a sut mae pethau wedi mynd. Dywedwch wrthym beth sydd wedi mynd yn dda, beth allai gael ei wella a sut brofiad oedd y flwyddyn. Gallwch sôn am unrhyw brosiectau rydych chi wedi gweithio arnynt fel Cynrychiolydd ac unrhyw fuddugoliaethau rydych chi wedi'u cael yn eich rôl neu fel ysgol. Dywedwch wrthym am yr hyn rydych chi'n falch ohono ac unrhyw heriau a wyneboch. |